**Eitem ar yr agenda: 4(i)**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun, Hydref 23ain 2006 yn Neuadd y Dref, Wrecsam. Dechreuodd y cyfarfod am 10.35 y bore.

**Yn bresennol:**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| E C George (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| | |
| W E Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| D Clayton | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| R G Hampson | Cyngor Sir y Fflint |
| J Ovens | Cyngor Sir y Fflint |
| C Shone | Cyngor Sir y Fflint |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |
| N S Colbourne | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P M Shone | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân ); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol , Cynnal y Gwasanaethau); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); D Docx (Prif Swyddog Cynorthwyol, Cyllid a Chaffael); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); K Hughes (Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

## 1) Ymddiheuriadau

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| P C Evans YH | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Williams | Cyngor Sir Ddinbych |
| W T Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Dywedodd y Cadeirydd na ddaeth unrhyw eitemau i'w law ef na'r Clerc i'w hystyried. Cyn mynd ymlaen â'r agenda fusnes, gwnaeth ddatganiad i roi gwybod i'r aelodau fod eitem fusnes Rhan II, sef "Tân 1af – Prosiect Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl" wedi ei dynnu oddi ar y agenda. Esboniodd fod y mater wedi ei drafod yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar Hydref 9fed. Yn ei gyfarfod, gofynnodd y Panel i Lywodraeth y Cynulliad gadarnhau yn ysgrifenedig, cyn y cyfarfod presennol, swm yr arian grant yr oedd yn ei neilltuo at gost y prosiect. Gan fod cadarnhad ysgrifenedig heb ddod i law eto, a gan fod y swm yn ganolog i gost y prosiect i'r Awdurdod, roedd wedi penderfynu gohirio'r drafodaeth tan gyfarfod nesaf yr Awdurdod ym mis Rhagfyr pryd y byddai'r sefyllfa'n fwy eglur gobeithio.

## 3) Cyhoeddiadau

i. Darllenodd y Clerc lythyr yr oedd y Cadeirydd wedi ei dderbyn gan y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes, Maer Caergybi, yn diolch i'r Gwasanaeth a'i staff am eu hymateb proffesiynol i'r tân trist yn Llanfaethlu lle roedd dau fachgen ifanc wedi colli eu bywydau, ac am y gefnogaeth yr oedd staff y Gwasanaeth wedi ei roi i'r Gwasanaeth Ambiwlans yn y digwyddiad. Cafodd yr aelodau wybod y byddai copi o'r llythyr yn cael ei anfon i Orsaf Dân Caergybi.

ii. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau y bu newid yng nghynrychiolwyr Cyngor Sir Ddinbych ar yr Awdurdod. Roedd y Cynghorydd Glyn Williams, nad oedd yn gallu bod yn y cyfarfod presennol yn anffodus, yn cymryd lle'r Cynghorydd David Jones MBE ar yr Awdurdod. Talodd y Cadeirydd deyrnged i wasanaeth y Cynghorydd Jones i'r Awdurdod. Bu'n aelod o'r Awdurdod ers ei sefydlu yn 1996, a bu hefyd yn Gadeirydd. Fel cefnogwr brwd i'r Gymraeg, bu'n gyfrannog yn sicrhau bod yr Awdurdod yn cynnal ei gyfarfodydd trwy gyfrwng y ddwy iaith. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau y byddai'n ysgrifennu at y Cynghorydd Jones i

ddiolch iddo am ei wasanaeth ac i ddymuno gwell iechyd iddo yn y dyfodol.

iii. Mynegwyd dymuniadau gorau i nifer o aelodau a swyddogion a oedd wedi dathlu, neu ar fin dathlu, penblwyddi arbennig.

iv. Dyddiadau cyfarfodydd pwyllgorau yn y dyfodol: cafodd yr aelodau wybod na phennwyd dyddiad eto ar gyfer cyfarfod nesaf y Panel Gweithredol. Byddai cyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân ac Achub, ar Ragfyr 18fed 2006, yn cael ei gynnal yn Siambr Dafydd Orwig, Caernarfon. Y noson honno, byddai Gwasanaeth Carolau Blynyddol y Gwasanaethau Brys yn cael ei gynnal yng Nghadeirlan Bangor.

**4) Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar Fehefin 19eg 2006

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.***

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth:

ii. Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar Fai 18fed 2006

**5) Materion yn Codi**

Roedd y mater canlynol yn codi o'r cofnodion a gyflwynwyd:

**Panel Gweithredol Mai 18fed 2006, Tud. 9, Cyd-ymateb:** rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r aelodau fod disgwyl i benderfyniad y Barnwr gael ei gyhoeddi yn hwyrach ymlaen y prynhawn hwnnw ynghylch yr achos a ddygwyd yn yr Uchel Lys gan Awdurdodau Tân ac Achub Swydd Nottingham a Swydd Gaerlŷr mewn perthynas â chyd-ymateb, ac yn benodol, drefniadau cytundebol Cytundeb Cyflog ac Amodau Gwasanaeth 2003. Byddai'r swyddogion yn cadw golwg ar y sefyllfa, ac yn hysbysu'r aelodau o'r canlyniad.

**6) Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) i roi'r diweddaraf yn fyr i'r aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychodd ef fel Cadeirydd, ac yn ei absenoldeb, yr Is-Gadeirydd fel ei gynrychiolydd, ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod ar Fehefin 19eg 2006. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad.***

**7) Cynllun Lleihau Risg 2007/08**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw), oedd yn gofyn i'r Awdurdod gefnogi argymhellion y Panel Gweithredol mewn perthynas â'r fersiwn ddrafft o Gynllun Lleihau Risg 2007/08 a'i ymatebion arfaethedig i'r sylwadau a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad. Soniodd wrth yr Awdurdod am broses y Cynllun a'r amserlen, cyn rhoi gwybod i'r aelodau fod y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) a'r Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, ill dwy, wrth law i ateb eu cwestiynau. Felly:

***Penderfynwyd:* -**

- ***i*** ***nodi'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar Gynllun 2007/08***
- ***ii*** ***cefnogi argymhellion y Panel Gweithredol, sef cymeradwyo mabwysiadu Cynllun 2007/08 fel y'i lluniwyd, yn ddibynnol ar rai mân gywiriadau o ran golygu; a***
- ***iii*** ***cefnogi argymhellion y Panel Gweithredol i ymateb i'r sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd ar Gynllun drafft 2007/08 fel y'i cyflwynwyd yn Atodiad 1.***

**8) Trefniadau ar gyfer Cynlluniau Gwella 2006/07**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) a'r fersiwn ddrafft o Gynllun Gwella 2006/07 i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod cyn ei gyhoeddi erbyn Hydref 31ain 2006, yn unol â'r gofynion cyfreithiol. Cyn dechrau'r cyfarfod, roedd newid i dudalen 30 o'r fersiwn ddrafft o'r Cynllun Gwella wedi ei ddosbarthu i bawb oedd yn bresennol. Esboniodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) fod yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru wedi eu cynnwys trwy amryfusedd o fewn Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynlluniau Gwella) 2006 oherwydd gwall wrth ei lunio, er nad oedd fersiwn derfynol o'r Canllawiau ar ddatblygu a gweithredu'r Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella - Tân ac Achub wedi ei gyhoeddi eto. O'r herwydd, roedd gofyn i awdurdodau lunio a chymeradwyo Cynllun Gwella erbyn diwedd Hydref. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau nad oedd y drafft terfynol o'r cylchlythyr yn nodi'r trefniadau am y tro ar gyfer proses Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella – Tân ac Achub wedi ei gyhoeddi tan Hydref 17eg 2006.

Wrth ateb cwestiwn gan y Cynghorydd W E Jones, ymddiheurodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol am safon y graffiau yn nogfen ddrafft y Cynllun Gwella. Esboniodd fod yr aelodau, oherwydd problemau technegol, wedi cael copïau du a gwyn o'r ddogfen yn lle'r rhai lliw fel y bwriadwyd. Roedd y cyferbyniad rhwng y lliwiau yn wael o'r herwydd. Sicrhaodd y byddai'r ddogfen derfynol mewn lliw ar wefan y Gwasanaeth. Felly:

***Penderfynwyd:* -**

*i  nodi'r gofyniad i gyhoeddi Cynllun Gwella ar gyfer 2006/07 cyn Hydref 31ain 2006; a*
*ii  cymeradwyo'r fersiwn ddrafft o Gynllun Gwella 2006/07 i'w gyhoeddi erbyn Hydref 31ain 2006.*

**9) Datganiad o Gyfrifon 2005/06 a'r Llythyr o Gynrychiolaeth**

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi'r fersiwn a archwiliwyd o Ddatganiad o Gyfrifon 2005/06 yr Awdurdod i'r aelodau ynghyd â chopi o'r ohebiaeth rhwng yr Archwiliwr Allanol a'r Trysorydd ynghylch y Cyfrifon. Atgoffodd yr aelodau iddynt dderbyn fersiwn o'r Datganiad o Gyfrifon yng nghyfarfod yr Awdurdod ar Fehefin 19eg cyn iddynt gael ei harchwilio. Ers hynny, roedd y Cyfrifon wedi cael eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac roedd y newidiadau y gofynnwyd amdanynt, sef rhai o ran cyflwyniad yn bennaf, ac a restrwyd ac a eglurwyd ym mharagraff 3 o'r adroddiad cyflwyno, wedi eu gwneud. Roedd swyddogion y Swyddfa wedi awgrymu eu bod bellach yn fodlon arwyddo'r Datganiad o Gyfrifon 2005/06 yn derfynol. Dywedodd y Trysorydd wrth yr aelodau fod gofyniad, dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, wrth i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon, iddo gydnabod yn ffurfiol y Llythyr o Gynrychiolaeth a anfonwyd i'r Archwiliwr Allanol. Felly:

***Penderfynwyd:* -**

*i. cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon diwygiedig ar gyfer 2005/06; a*
*ii. cydnabod y Llythyr o Gynrychiolaeth a anfonwyd at yr Archwiliwr Allanol.*

**10) Archwiliad o'r datganiadau ariannol – adrodd i'r rhai hynny sydd â chyfrifoldeb dros reolaeth**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Matthew Edwards, Rheolwr Archwilio o Swyddfa Archwilio Cymru (WAO), i'r cyfarfod i gyflwyno adroddiad y Swyddfa (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i'r aelodau. Cyn cyflwyno ei adroddiad, dywedodd Mr Edwards wrth yr aelodau fod fersiwn Gymraeg yr adroddiad bellach ar gael. Dywedodd wrth yr aelodau fod yr adroddiad, oedd yn arddull newydd y Swyddfa, yn cynnwys crynodeb a dadansoddiad manwl o ganfyddiadau'r archwiliwr. Yna, cyfeiriodd yr aelodau at baragraff 9 ar dudalen 6 o'r adroddiad a oedd yn cyfeirio at y "camddatganiadau nas cywirwyd", gan esbonio bod yr Archwiliwr, yn dilyn cyfarfodydd gyda'r Trysorydd a'i staff, yn fodlon bod y darpariaethau'n dryloyw ac yn cael eu defnyddio o fewn cyfnod rhesymol, er nad oedd y datganiadau y cyfeirir atynt yn y paragraff hwn yn cydymffurfio â Chod Datganiad o Arfer a Argymhellir CIPFA *(Statement of Recommended Practice (SoRP))* na'r Safon Adroddiad Ariannol (*Financial Reporting Standard (FRS)*)12. Roedd yr awdurdodau cyfansoddol hefyd yn ymwybodol o'r darpariaethau hyn. Felly:

***Penderfynwyd:*** ***- nodi adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.***

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Edwards am fynychu ac am gyflwyno'r adroddiad.

**11) Alldro Amcanol 2006/07**

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn nodi'r gwariant hyd yn hyn yn y flwyddyn ariannol gyfredol, ac, yn seiliedig ar y ffigurau gwariant, y ffigurau alldro amcanol terfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2006/07. Cyn esbonio'r amnewidion cyllidebol oedd yn ei adroddiad, esboniodd y Trysorydd ei bod yn hynod anodd ar yr adeg hon yn y flwyddyn ariannol i ragweld yn gywir beth fyddai'r ffigurau alldro terfynol oherwydd y math o wasanaeth a ddarperir gan eu bod yn bennaf yn dibynnu ar lefelau gweithgaredd. Felly:

***Penderfynwyd:*** ***-***

- ***i. nodi bod yr alldro amcanol yn cymryd i ystyriaeth y lefelau gweithgaredd hyd yma ac amcangyfrif o'r lefelau gweithgaredd yn y dyfodol ar gyfer gweddill y flwyddyn ac y gallai'r rhain newid; a***
- ***ii. nodi'r tanwariant a ragwelir ar hyn o bryd, a bod ystyriaeth yn cael ei roi ar sut i ddelio â'r tanwariant pan ddaw adroddiad pellach gerbron cyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr.***

**12) Yr Adolygiad o Bensiynau**

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) gan esbonio ei fod fel arfer ar yr adeg hon o'r flwyddyn yn darparu adroddiad yn rhoi'r diweddaraf am y ddarpariaeth ar gyfer pensiynau y mae'r Awdurdod yn ei dal. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad eleni'n rhoi cipolwg i'r aelodau o'r trefniadau arfaethedig ar gyfer cyllido Cynllun Pensiwn newydd y Diffoddwyr Tân sydd i fod i ddod i rym yn Ebrill 2007, a'r effaith oherwydd hynny ar y Ddarpariaeth ar gyfer Pensiynau sydd gan yr Awdurdod. Yna, aeth y Trysorydd yn ei flaen i esbonio'r gwahaniaethau yn y trefniadau cyllido ar gyfer y cynllun presennol a'r cynllun newydd, a rhoi gwybod i'r aelodau am weddill cyfredol y Ddarpariaeth. Oherwydd y trefniadau newydd ar gyfer cyllido, roedd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried adolygu setliad y Grant Cynnal Refeniw er mwyn iddo allu adennill grant atodol a delir i awdurdodau tân ac achub trwy ostyngiad cyfatebol yn y Grant. Ar hyn o bryd, roedd gwahaniaeth barn rhwng y Trysorlys, Llywodraeth y Cynulliad a'r awdurdodau tân ac achub ynghylch y cynnig hwn, gyda'r olaf o'r farn y gallai newidiadau o'r fath gael effaith niweidiol ar lefelau treth y cyngor yr awdurdodau cyfansoddol.

O ran y ddarpariaeth bresennol a ddelir gan yr Awdurdod, cafodd yr aelodau wybod gan y Trysorydd fod yr arian yn dal yn swyddogol yn eiddo i'r awdurdodau cyfansoddol, ond bod yr Awdurdod yn ei gadw gyda'u cytundeb hwy fel darpariaeth i liniaru unrhyw bwysau posib ar y gyllideb yn y dyfodol

oherwydd ymrwymiadau o ran pensiynau. Aeth yn ei flaen i esbonio ei fod yn gyndyn i ddychwelyd yr arian i'r awdurdodau cyfansoddol ar hyn o bryd gan fod angen iddo fod yn sicr fod digon o arian ar gael i ymorol am yr holl gostau hyd nes y byddai'r cynllun newydd wedi ei sefydlu ac yn weithredol, er y byddai'r trefniadau newydd yn arwain yn y pen draw at sefyllfa lle na fyddai angen i'r Awdurdod ddal Darpariaeth Pensiynau mor fawr ar gyfer ymrwymiadau yn y dyfodol. Roedd swyddogion yn yr hen Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM), sef yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) bellach, wedi ei sicrhau na allent hwy na Llywodraeth y Cynulliad hawlio arian y Ddarpariaeth ar gyfer Pensiynau gan mai'r awdurdodau cyfansoddol oedd yn berchen arno.

Rhoddodd y Cynghorydd W J Chorlton wybod bod Cyfarwyddwr Cyllid Cyngor Sir Ynys Môn wedi dod ato i ofyn am i ystyriaeth gael ei rhoi i ddychwelyd ei gyfran o'r Ddarpariaeth, gan ei fod o'r farn fod gadael yr arian yn y Ddarpariaeth ar gyfer Pensiynau yn ei wneud yn agored iawn, ac yn gadael y drws ar agor i'r llywodraeth ganolog ei hawlio. Roedd y Cynghorydd Chorlton o'r farn mai doethach fyddai dychwelyd yr arian i'r awdurdodau cyfansoddol dan gafeat yn rhagnodi y gallai'r Awdurdod Tân ac Achub ar unrhyw adeg alw y cyfan o'r swm a ddychwelid, neu ran ohono, at ddiben ariannu ymrwymiadau o ran pensiynau. Dywedodd y Clerc y byddai raid i adroddiad pellach gael ei gyflwyno gerbron yr aelodau i'w ystyried os mai dyna ddymuniad yr Awdurdod, gan nad oedd yr adroddiad cyfredol yn nodi'r union symiau y gellid eu dychwelyd i bob un o'r awdurdodau cyfansoddol. Dywedodd y Trysorydd wrth y Cynghorydd Chorlton ei fod yn deall safbwynt ei Awdurdod yn llwyr, ond ei fod yn fodlon cadw'r arian yn y Ddarpariaeth ar hyn o bryd hyd nes yn y byddai asesiad mwy manwl gywir o'r ymrwymiadau yn y dyfodol wedi ei wneud, gan gofio am y sicrwydd a gafwyd gan Adrannau perthnasol o'r Llywodraeth. Roedd nifer o'r aelodau yn cytuno â barn y Trysorydd. Cynigiodd y Cynghorydd Chorlton, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd J A Roberts, dderbyn y ddau argymhelliad cyntaf yn yr adroddiad ond i newid y trydydd i'w gwneud yn haws i'r Awdurdod ddychwelyd rhan o'r Ddarpariaeth ar gyfer Pensiynau i'r awdurdodau cyfansoddol, gyda chymal yn rhagnodi bod gan yr Awdurdod hawl i alw'n ôl y swm a ddychwelid, neu ran ohono, i ariannu ymrwymiadau o ran pensiynau. Pan bleidleisiwyd, o fwyafrif:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

- ***i nodi'r trefniadau newydd ar gyfer cyllido Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân;***
- ***ii gwneud dadansoddiad pellach o ymddeoliadau ar sail Afiechyd er mwyn cael amcangyfrif o'r gofynion yn y dyfodol ar y gyllideb; a***
- ***iii bod adroddiad yn cael ei lunio ar gyfer cyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr yn rhestru'r symiau y gellir eu dychwelyd o'r Ddarpariaeth ar gyfer Pensiynau i'r awdurdodau cyfansoddol dan gafeat a fyddai'n caniatáu i'r Awdurdod alw'n ôl y swm a ddychwelid, neu ran ohono, petai ei angen i ariannu ymrwymiadau annisgwyl o ran pensiynau yn y dyfodol.***

## 13) Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) a oedd, yn unol â Chod CIPFA ar Gyllid Cyfalaf, yn adrodd ac yn ceisio cymeradwyaeth am unrhyw newidiadau sylweddol i'r Dangosyddion Darbodus, ac yn rhoi gwybodaeth i'r aelodau am newidiadau a wnaed i fenthyca hir dymor a gwrthbartïon yr Awdurdod, yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys. Esboniodd fod ad-dalu dyledion, y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 4 o'i adroddiad, wedi ei wneud er lles yr Awdurdod. Wrth ateb cwestiwn gan y Cynghorydd D Clayton ynghylch ad-dalu dyledion, dywedodd y Trysorydd y byddai rhai benthyciadau yn agored i daliadau cosb am dalu'n ôl yn gynnar, ac y byddai hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau, megis y math o fenthyciad a'i hyd. Rhoddodd Cyfrifydd y Gwasanaeth wybod i'r Cynghorydd Clayton nad oedd y benthyciadau a restrwyd ym mharagraff 4 o'r adroddiad wedi golygu unrhyw gosbau am dalu'n ôl yn gynnar. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus diwygiedig, nodi'r rhestr ddiwygiedig o wrthbartïon, a nodi'r benthyciadau a aildrefnwyd.***

## 14) Dileu Dyled Ddrwg

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi'r diweddaraf i'r aelodau am ddyled ddrwg, a gofyn iddynt gymeradwyo dileu'r ddyled yn unol â Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod. Cafodd yr aelodau wybod i ymholiadau pellach gael eu gwneud, yn dilyn eu cais yng nghyfarfod blaenorol yr Awdurdod Tân ac Achub, ynghylch y cwmni cyfyngedig y codwyd y ddyled yn ei erbyn. Daeth yn eglur fod y busnes a'r safle yn berchen i'r un cwmni a oedd wedi ei ddiddymu ers hynny. Felly, nid oedd ffordd arall i'r Awdurdod allu adfer y ddyled, na rhan ohoni.

Yna, esboniodd y Trysorydd ei fod wedi meddwl, yng ngoleuni'r achos hwn, am ba mor ymarferol oedd trothwy presennol yr Awdurdod ar gyfer cael cymeradwyaeth yr aelodau i ddileu dyledion drwg. Roedd yn argymell y dylai'r Awdurdod, gan mai risg isel oedd i ddyledion yr Awdurdod Tân ac Achub ac mai prin ac anaml oeddent, godi'r trothwy ar gyfer cael eu cymeradwyaeth ar gyfer dileu i £5,000. Byddai'r newid hwn yn dod i rym ar unwaith, ac yn cael ei ymgorffori yn yr adolygiad o'r Rheoliadau Ariannol a oedd yn mynd rhagddo. Cytunodd y Trysorydd i gais gan y Cynghorydd W J Chorlton i adroddiad blynyddol gael ei gyflwyno gerbron yr Awdurdod yn rhestru'r holl ddyledion dan £5,000 a oedd wedi eu dileu. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

***i cymeradwyo dileu'r ddyled fel un anadferadwy yn unol â Rheol 14.10 o Reoliadau'r Awdurdod;***

***ii cymeradwyo codi'r trothwy ar gyfer adrodd ynghylch dileu dyledion na ellir ei hadfer i'r Awdurdod Tân i £5000 a newid y Rheoliadau Ariannol yn unol â hynny; a***

***iii bod adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno gerbron yr Awdurdod yn rhestru'r holl ddyledion dan £5,000 a ddilëwyd gan eu bod yn anadferadwy.***

**15) Cyllido'r Gwasanaeth Tân ac Achub**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn gofyn i'r Awdurdod gefnogi argymhellion y Panel Gweithredol ynghylch ymateb i ohebiaeth ddiweddar gan Lywodraeth y Cynulliad am newidiadau posib i'r trefniadau presennol ar gyfer cyllido'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Cafodd yr aelodau wybod gan y Prif Swyddog Cynorthwyol fod y llythyr gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn y Cynulliad at gadeiryddion yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru, oedd yn atodiad i'r adroddiad, wedi dod yn hollol annisgwyl, ac roedd yn awgrymu cyfyngu ar y cynyddiadau blynyddol yng nghyllidebau awdurdodau i swm cyfartalog o'r cynyddiadau yn y Grant Cefnogi Refeniw yn eu hawdurdodau cyfansoddol. Rhoddodd y Prif Swyddog Cynorthwyol wybod i'r aelodau fod ei hadroddiad yn rhestru manteision ac anfanteision y trefniadau presennol a'r trefniadau arfaethedig ar gyfer ariannu, a dywedodd bod Panel Gweithredol yr Awdurdod, a oedd wedi ystyried llythyr y Gweinidog am gryn amser yn ei gyfarfod ar Fedi 21ain 2006, wedi argymell i'r Awdurdod y dylai wrthod awgrym y Gweinidog ac ymateb i'w llythyr mewn modd tebyg i'r hyn a wnaed gan Awdurdod Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin.

Atgoffwyd yr aelodau gan yr Is-Gadeirydd fod y trefniadau presennol ar gyfer cyllido wedi bod yn addas i'r Awdurdod am y deng mlynedd diwethaf. Roedd y trefniadau wedi rhoi cyfle i'r Awdurdod, os oedd angen, ofyn am gyfraniadau ychwanegol gan yr awdurdodau cyfansoddol yn ogystal â'r dewis i ddychwelyd unrhyw danwariant i'r awdurdodau hynny. I ateb pwynt a godwyd ynghylch statws praeseptio a gwrthwynebiad amlwg y Gweinidog i'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru ddod yn awdurdodau praeseptio, dywedodd y Clerc y byddai awdurdodau, petaent yn dod yn gyrff praeseptio, yn agored i'r un cyfyngiadau ag awdurdodau lleol ar ffurf neilltuo (*hypothecation*) a'r bygythiad o gapio uniongyrchol. Felly:

***<u>Penderfynwyd:</u> - cefnogi penderfyniad y Panel Gweithredol, ac ymateb i lythyr y Gweinidog gan "ddatgan ei fodlonrwydd cyffredinol [yr Awdurdod] gyda'r system gyllido bresennol, a gwrthod ei chynnig i newid y Gorchmynion Cyfuno fel na allai'r cynnydd blynyddol yn y treuliau net godi'n uwch na'r cynnydd blynyddol yn y Grant Cefnogi Refeniw fel a benderfynir yn flynyddol gan Lywodraeth y Cynulliad".***

## 16) Breinlen Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân adroddiad y Swyddog Cyswllt Aelodau (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn gofyn i'r aelodau gymeradwyo Breinlen ddrafft yr Awdurdodau Tân ac Achub ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau a'r dogfennau cysylltiol Disgrifiadau o'r Rolau a Manylion y Person. Esboniodd y byddai'r aelodau eisoes yn gyfarwydd â'r Freinlen yn eu hawdurdodau cartref, a bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru *(WLGA)* wrthi'n ceisio cael cytundeb gan yr awdurdodau ar fersiynau drafft tân ac achub o'r dogfennau ac iddynt benderfynu mewn egwyddor i geisio am statws y Freinlen maes o law.

Yna, aeth Swyddog Cyswllt Aelodau drwy gynnwys yr adroddiad a'r dogfennau oedd ynghlwm. Esboniodd mai addasiadau oedd y dogfennau, a gyflwynwyd i'r aelodau at ddiben cymeradwyo, o'r Freinlen gyfatebol ar gyfer awdurdodau lleol, a dogfennau cysylltiol. Roedd swyddogion o'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru ac WLGA wedi cyfarfod i addasu dogfennau'r Freinlen wreiddiol at ddiben awdurdodau tân ac achub. Prif ddiben y cyfarfodydd oedd sicrhau y byddai gofynion Breinlen yr awdurdodau tân ac achub yn osgoi gorfod dyblygu gwasanaethau a hyfforddiant a ddarperid eisoes i'r aelodau gan eu hawdurdodau cartref. Roedd y dull hwn yn cyd-fynd â gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad yn "Creu'r Cysylltiadau" ac argymhellion Adolygiad Beecham. Yn ei Ganllawiau i'r Cynlluniau Lleihau Risg, roedd Llywodraeth y Cynulliad wedi datgan yn glir fod yn rhaid i'r awdurdodau tân ac achub ystyried eu risgiau corfforaethol, yn ogystal ag ystyried risgiau cymunedol. Roedd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi tynnu sylw at fabwysiadu ac ymgeisio am statws cydnabyddiaeth y Freinlen, a byddai hynny'n golygu rhoi cefnogaeth i'r aelodau yn ogystal a darparu cyfleoedd iddynt ddatblygu, fel modd o geisio lliniaru risgiau corfforaethol yn ei Gynllun Lleihau Risg ar gyfer 2007/08.

Cafodd yr aelodau wybod y byddai fersiwn ddwyieithog o'r dogfennau drafft yn cael eu cyhoeddi unwaith y byddai pob awdurdod tân ac achub wedi cymeradwyo'r fersiynau drafft. Roedd Awdurdod Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin ac Awdurdod Tân ac Achub y De eisoes wedi cymeradwyo'r dogfennau. Wedi i "Ddatganiad o Fwriad" i wneud cais am Lefel Sylfaenol y Freinlen gael ei lofnodi, byddai gan yr Awdurdod chwe mis i lunio ac anfon ei gais at WLGA. Cyn i hyn ddigwydd, byddai'r Awdurdod yn hunanasesu yn erbyn meini prawf y Freinlen i weld pa fesurau oedd angen eu rhoi mewn lle er mwyn derbyn y gydnabyddiaeth.

Roedd y Cynghorydd E C George o'r farn y byddai'r Freinlen yn gosod sail i waith yr aelodau, ac yn gymorth iddynt wrth godi materion ac amcanion yr awdurdod tân ac achub, ac anelu atynt, yn eu hawdurdodau cartref, megis gosod systemau taenellu dŵr. Teimlai hefyd y gallai fod o fudd i'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru petaent yn ymgeisio am lefel sylfaenol y Freinlen ar yr un pryd gan eu bod yn rhannu'r un diben, ac y byddai'n gyfle i gael rhagor o gydweithredu, gweithio ar y cyd a rhannu arferion da. Wrth ateb sylwadau'r

Cynghorydd George, dywedodd y Swyddog Cyswllt Aelodau fod Awdurdod Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin yn frwd iawn dros y syniad o rannu arferion da ac i'r tri awdurdod geisio cydnabyddiaeth tua'r un pryd. Roedd y cwestiwn a oedd aelodau'n adrodd yn ôl i'w awdurdodau eu hunain ynghylch busnes yr awdurdod tân ac achub hefyd wedi ei godi yn ystod y cyfarfodydd a gynhaliwyd i lunio dogfennau'r Freinlen:

***Penderfynwyd: -***

- ***i cymeradwyo Breinlen ddrafft yr awdurdodau tân ac achub ar gyfer Cynorthwyo a Chefnogi Aelodau;***
- ***ii cymeradwyo'r Disgrifiadau o'r Rolau a Manylion y Person sy'n gysylltiedig; ac***
- ***iii ymgeisio am gydnabyddiaeth dan y Freinlen maes o law.***

**17) Gweithdrefn Gwynion – Cam 3**

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo argymhellion y Panel Gweithredol mewn perthynas â gweithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion a gyflwynir i'r Awdurdod dan gam 3 o'r weithdrefn gwynion. Manylodd ar gynnwys yr adroddiad i'r aelodau a'u hysbysu ei fod wedi meddwl rhagor am y weithdrefn arfaethedig ers cyfarfod y Panel Gweithredol, ac wedi dod i'r casgliad mai da o beth fyddai llunio amserlen debyg i'r un sydd yng nghamau 1 a 2 o'r weithdrefn gwynion yn rhan o drydydd cam y broses. Yr amserlen a argymhellid fyddai: yn dilyn derbyn y gŵyn ysgrifenedig oddi wrth yr achwynydd byddai gan yr Awdurdod bythefnos i ymateb i'r achwynydd gan ateb y materion a godir ganddo/ganddi/ganddynt; byddai'r achwynydd yn cael pythefnos arall i gyflwyno sylwadau ar ymateb yr Awdurdod; pan ddeuai'r bythefnos honno i ben, byddai gwrandawiad yn cael ei drefnu a'r gwaith papur perthnasol yn cael ei ddosbarthu fel y gwneir yn arferol ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau'r Awdurdod.

Holodd y Cynghorydd D Clayton a fyddai hi'n amserol ar hyn o bryd, gan fod gweithdrefn gwynion yr Awdurdod yn weithredol ers dros ddeng mlynedd, yn enwedig o ystyried y cyngor a ddaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn "Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddelio â Chwynion" a gyhoeddwyd yn ddiweddar, i'r Awdurdod adolygu ei weithdrefn gyda'r bwriad o symleiddio'r broses. Roedd yr aelodau'n cytuno â'r farn hon, ac felly:

***Penderfynwyd: - cefnogi cynigion y Panel Gweithredol gan aros adolygiad cynhwysfawr o Weithdrefn Gwynion yr Awdurdod:***

- ***i mabwysiadu'r trefniadau a nodwyd yn yr adroddiad at ddiben unrhyw wrandawiad yng ngham 3 yn y dyfodol;***
- ***ii mai'r Panel Gweithredol ddylai fod yn gyfrifol am benodi is-bwyllgor o dri aelod i wrando ar gwynion yn y trydydd cam; a***

*iii bod trefn gwrandawiad cŵyn y trydydd cam fel a amlinellwyd ym mharagraff 7 o'r adroddiad.*

**18) Cynrychiolaeth ar Bwyllgor Safonau'r Awdurdod**

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn gofyn i'r Awdurdod gefnogi penderfyniad y Panel Gweithredol i benodi'r Cynghorydd Cliff Shone i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau yn lle'r Cynghorydd Sharon Frobisher. Esboniodd fod y datganiadau o ddiddordeb a dderbyniwyd gan aelodau oedd yn dymuno gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau wedi eu cyfeirio at y Panel Gweithredol er mwyn iddo, dan y pwerau a ddirprwywyd iddo, benodi cynrychiolydd i wasanaethu ar y Pwyllgor, gan fod y Pwyllgor i gyfarfod ar Hydref $2^{il}$ 2006, sef cyn y cyfarfod nesaf o'r Awdurdod Tân ac Achub. Diolchodd y Clerc i'r Cynghorydd Shone am fynychu'r cyfarfod ar Hydref $2^{il}$. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cadarnhau penderfyniad y Panel Gweithredol i benodi'r Cynghorydd Cliff Shone i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau tan yr etholiadau cyffredin nesaf 2008.***

**19) Materion Brys**

Dim.

**<u>RHAN II</u>**

**20) "Tân $1^{af}$" – Prosiect Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl**

Roedd yr eitem fusnes hon wedi ei gohirio tan gyfarfod nesaf yr Awdurdod. Gweler eitem 2 ar yr agenda fusnes.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.40 y bore.